# BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 16 Rhagfyr 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
E. Dole, C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins a J. Tremlett;

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd D.M. Cundy;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
I. Jones, Pennaeth Hamdden;
J. Jones, Pennaeth Adfywio;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 yb - 10.30 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd L.M. Stephens.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y**

**3.1. 18FED TACHWEDD 2019;**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2019 yn gofnod cywir.**

**3.2. 2AIL RHAGFYR 2019.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019 yn gofnod cywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. **SYLFAEN TRETH Y CYNGOR - 2020-21**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad ynghylch Sylfaen y Dreth Gyngor 2020-21. Atgoffwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor benderfynu, yn flynyddol, ar Sylfaen y Dreth Gyngor a Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer pob cymuned yn ei ardal, at ddibenion cyfrifo lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn ariannol oedd i ddod a bod y gwaith cyfrifo blynyddol wedi cael ei ddirprwyo i'r Bwrdd Gweithredol, o dan ddarpariaethau Adran 84 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2004.

Roedd cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y Cyngor Sir am 2020-21 wedi'i nodi yn Nhabl 1a ac wedi'i grynhoi yn Nhabl 1b, a oedd wedi'u hatodi i'r adroddiad. Roedd y cyfrifiad yng nghyswllt Cynghorau Tref a Chymuned unigol ar gyfer 2020-21 wedi'i grynhoi yn Nhabl 2 a'r manylion yn Atodiad A, a oedd hefyd wedi'u hatodi i'r adroddiad. O ran Atodiad 'A', cynghorwyd y Bwrdd y dylai'r ffigurau yn y llinell 'Cyf. F/G - Cymhareb â Band D' yn nhabl pob cyngor tref/cymuned fod yr un fath â'r rhai a gynhwyswyd yn y tabl ar gyfer Tref Rhydaman. Nid effeithiwyd ar y ffigurau cyffredinol a restrwyd.

Nododd y Bwrdd fod adroddiad y Sylfaen Dreth yn darparu cyfrifiadau ar gyfer yr Awdurdod cyfan, yn ogystal â manylion ar gyfer pob ardal cyngor tref a chyngor cymuned at ddibenion eu praesept, ac y cyfrifwyd mai Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021 oedd £74,006.63.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1. bod y cyfrifiadau o ran pennu Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fel y manylwyd arnynt yn Atodiad A o'r adroddiad, yn cael eu cymeradwyo;**

**6.2. bod Sylfaen y Dreth Gyngor o £74,006.63, fel y manylwyd arni yn nhablau 1a ac 1b o'r adroddiad, yn cael ei chymeradwyo yng nghyswllt ardal y Cyngor Sir;**

**6.3. bod y sylfeini treth perthnasol yng nghyswllt y Cynghorau Cymuned a Thref unigol, fel y manylwyd arnynt yn nhabl 2 o'r adroddiad, yn cael eu cadarnhau.**

7. **PARC RHANBARTHOL Y CYMOEDD - CYFRANOGIAD A CHYTUNDEB CYFREITHIOL**

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad ar oblygiadau penderfyniad y Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i gynnwys Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth yn ardal Tasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys Cymoedd De Cymru, a oedd wedi'i sefydlu yn 2017. Nododd adroddiad diweddaru'r tasglu a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru y byddai'r tasglu yn parhau i weithio i gyflawni'r holl gamau gweithredu a gynhwyswyd yn 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni'. Byddai ei ymdrechion yn canolbwyntio'n benodol ar 6 phrif flaenoriaeth. Un ohonynt oedd datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd erbyn 2021 gyda'r nod o fanteisio i'r eithaf ar botensial cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol treftadaeth naturiol a diwylliannol y cymoedd. Yn hyn o beth, roedd cytundeb cyfreithiol ar gyfer prosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad, wedi cael ei ddrafftio i bob awdurdod lleol a oedd yn cymryd rhan ei lofnodi. Roedd y ddogfen yn gytundeb ar y cyd

rhwng y partïon, gan gynnwys rhwymedigaethau, ac felly roedd angen cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol i awdurdodi Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i lofnodi'r ddogfen.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**7.1 cymeradwyo cyfranogiad y Cyngor Sir ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd;**

**7.2 cymeradwyo'r cytundeb cyfreithiol sydd wedi'i atodi i'r adroddiad ac awdurdodi Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i lofnodi'r ddogfen;**

7.3 **cymeradwyo cynrychiolaeth gan Arweinydd y Cyngor ar Fwrdd Parc Rhanbarthol y Cymoedd.**

## 8. UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o ran materion brys.

## 9. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 10. LLAIN 1 PARC ADWERTHU TROSTRE, LLANELLI

**Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 9 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd prawf budd y cyhoedd yn y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth a fyddai, o'i datgelu, yn rhoi'r awdurdod o dan anfantais faterol mewn unrhyw drafodaethau dilynol a gallai gael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus.**

Gan gyfeirio at gofnod 12 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2019, ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad yn ymwneud â'r cynnig a dderbyniwyd am Lain 1, gerllaw Parc Adwerthu Trostre. Yn dilyn proses diwydrwydd dyladwy ddilynol ac ymchwiliadau, roedd y darpar ddatblygwr wedi nodi costau abnormal nas rhagwelwyd ac roedd wedi cysylltu â'r awdurdod i ofyn a fyddai'n barod i gytuno i isafswm pris yn y dogfennau cyfreithiol i adlewyrchu'r costau abnormal hyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, fod isafswm pris o £1.5m yn cael ei gynnwys yn y dogfennau gwerthu.**

**11. GOGLEDD STRYD Y FARCHNAD, LLANELLI**

**Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 9 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd prawf budd y cyhoedd yn y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth a fyddai, o'i datgelu, yn rhoi'r awdurdod o dan anfantais faterol mewn unrhyw drafodaethau dilynol gyda thrydydd partïon a gallai gael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus.**

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad yn manylu ar yr opsiynau a drafodwyd gyda thenant Altalia, 2/2a Stryd Stepney, Llanelli i hwyluso'r gwaith o ailddatblygu adeiladau yng Ngogledd Stryd y Farchnad fel prosiect strategol o dan y rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn ildio prydles bresennol yn Altalia, 2/2a Stryd Stepney, Llanelli, ar y telerau a gytunwyd.**

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**